**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion y cyfarfod misol yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan ar y **11eg o Orffennaf, 2024 am 7:00 yr hwyr.**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Michael Jones, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Raymond Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin), Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Iddon Edwards (Penmorfa), Gwiylm Evans (Prenteg) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Sarah Jones (Pentrefelin), Jess Williams (Penmorfa), Cynghorydd June Jones, Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd), |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Edward Evans (Bryncir), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa) |
| 4. | Datgan buddiant: | Neb |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion | MJ yn cynnig ac GE yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion | <u>Etholiad:</u> Dal heb dderbyn ymateb gan Gyngor Gwynedd. Clerc i barhau i ddilyn y mater yma.<br><br><u>Archwiliad:</u> Adroddodd y Clerc fod bob dim yn barod i'w anfon i Archwilio Cymru.<br><br><u>Hwb Eifionydd:</u> Mae ateb wedi'i dderbyn i'r cais rhyddid gwybodaeth gan y Bwrdd Iechyd. Dim sylwadau am y tro. Penderfynwyd ei roi ar yr agenda nesaf.<br><br><u>Coed Tan y Bryn:</u> Derbyniwyd ateb gan Goed Cadw yn uniaith Saesneg i ddweud eu bod wedi torri'r canghennau. Adroddodd CW bod angen torri mwy er mwyn gwella gwelededd y ffordd. Clerc i gysylltu yn ôl ac i nodi ein siomedig rwydd o dderbyn e-bost uniaith Saesneg gan sefydliad sydd yn galw eu hunain yn Goed Cadw.<br><br><u>Pont y Traeth, Prenteg:</u> Bu i Gynghorydd June Jones ddilyn y mater yma i fyny hefo Gareth Roberts, Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC, Cyngor Gwynedd. Cadarnhaodd ei fod wedi cael cyfarfod safle rhai misoedd yn ôl bellach ac y byddai'r Uned Strwythurau yn ystyried agor tyllau ar ymylon "deck" y |

| | | |
|---|---|---|
| | | bont. Dywedodd y byddai'n cysylltu ar Uned Strwythurau ar ein rhan a hefyd yn cysylltu gydag Adrian i daro golwg ar y coed fel mater ar wahân. Clerc i ddilyn y mater yma yn uniongyrchol gydag Gareth ac Adrian. |
| 7 | Mynwentydd | <u>Mynwent Bethel, Golan</u><br><br>Mynwent Bethel wedi derbyn toriad mis Gorffennaf.<br><br>Adroddwyd fod yna dri bedd yn y fynwent ble mae'r cerrig wedi disgyn. Mae'r cerrig yn rhy drwm i'w codi. Clerc i gysylltu hefo Madog Memorials i weld os oes modd cael y cerrig yma wedi eu codi a'u gosod ar y bedd. JJ am fflagio'r cerrig am y tro fel eu bod yn weladwy i'r cyhoedd.<br><br>Bu i JJ a JT ymweld ar fynwent i archwilio cyflwr y llwybr a pha waith sydd angen ei wneud. Clerc i wneud ymholiadau ac i gasglu prisiau. I'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.<br><br><u>Mynwent Prenteg</u><br><br>Mae'r gwair wedi ei dorri a'r darn gwyllt wedi cael ei wneud.<br><br>Yn y cyfarfod diwethaf soniwyd bod cwyn wedi'i dderbyn am gyflwr y ffordd i'r fynwent ac roedd tri chynghorydd am ymweld ar fynwent. Yn anffodus, doedd yr un cynghorydd a gytunodd i ymweld â mynwent Prenteg yn bresennol. Mater yma i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.<br><br>Derbyniwyd clod gan yr ymgymerwyr angladdau Pritchard & Griffiths am ein ffurflen gais am gladdu. Clerc i adrodd hyn i Unllais rhag ofn y byddai'r ffurflen o gymorth i gynghorau cymuned eraill sydd â chyfrifoldeb dros fynwentydd. |
| 8 | Llwybrau Cyhoeddus | Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn galwad ffôn gan un o gontractwyr torri llwybrau. Dywedodd fod llwybrau Garndolbenmaen wedi cael eu gwneud. Mae o dal angen gwneud un Hendre Cennin a hefyd llwybr Bryncir. Nid yw'n gallu torri llwybr Golan am fod y llwybr wedi'i gau am y tro am resymau diogelwch.<br><br>Arwyddion dal ddim wedi eu gosod ger Pont Faen a Bron y Foel. Clerc i ddilyn y mater yma i fyny. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi | <u>Pentrefelin</u><br><br>Rhododendrons dal heb gael eu torri ac yn achosi perygl ofnadwy i'r rhai sydd yn ceisio dod allan o'r gyffordd o dan |

| | | |
|---|---|---|
| | | bont rheilffordd i'r ffordd fawr o Dreflys. Clerc i ddilyn y mater yma i fyny hefo Priffyrdd.<br><br>Adroddwyd bod dwy lori wedi methu mynd o dan y bont rheilffordd yn ddiweddar. Y farn yw nad yw'r arwyddion yn ddigon clir. Clerc i gysylltu hefo'r Adran Draffig.<br><br>Soniwyd bod gan rhai o drigolion y pentref ddiddordeb mewn cael bocs cyfnewidfa llyfrau wrth y fainc yng nghanol y pentref. Clerc i wneud ymholiadau os oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y math yma o beth.<br><br><u>Garndolbenmaen</u><br><br>Adroddwyd fod pibelli dŵr y pentref yn byrstio bob munud. Clerc i gysylltu gyda Dŵr Cymru.<br><br>Braf oedd clywed fod Ysgol Garndolbenmaen wedi derbyn adroddiad ESTYN gwych. Hoffai'r Cyngor Cymuned longyfarch yr holl staff a'r plant am eu gwaith caled.<br><br>Ffordd Canolfan Ailgylchu Rhwngddwyryd – adroddwyd bod yna lawer o ddŵr ar y ffordd cyn i chi gyrraedd y ganolfan ailgylchu o gyfeiriad Garndolbenmaen. Clerc i adrodd am hyn.<br><br><u>Golan</u><br><br>Adroddodd JT fod tyfiant lôn Ymwlch yn ofnadwy a'i fod yn beryg. Clerc i ddilyn y mater yma i fyny.<br><br>Mae pyst adlewyrchu angen cael ei ail osod ar y gyffordd get Clennenau.<br><br>Adroddwyd fod llanast ofnadwy ar hyd ffordd Cwmystradllyn yn dilyn y lori ailgylchu. Clerc i adrodd am hyn.<br><br><u>Prenteg</u><br><br>Soniwyd bod yna arwydd wedi ei leoli ar ochr Porthmadog i Bont y Traeth yn dweud "Stop". Nid oes unrhyw un yn siŵr pam ei fod yno. Amau efallai mai'r rheilffordd sydd wedi'i osod. Clerc i gysylltu ar reilffordd i holi a gweld os oes modd cael ei dynnu i lawr. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bu i Gyngor Gwynedd anfon cwyn ymlaen gan aelod o'r cyhoedd parthed coeden sydd wedi marw a phydru ac sydd yn gwyro dros eiddo ac yn beryg o achosi difrod neu niwed. Bu i gynghorydd ymweld ar safle ac nid yw hon yn ddim i wneud â Chyngor Cymuned Dolbenmaen. Coeden Geirios yw hi ac mae hi ar dir sydd yn berchen i Gyngor Gwynedd ac o bosib Aberdunant.<br><br>Mae ceir yn parhau i barcio ar yr ymylon ym Mwlch y Moch. Yn y cyfarfod a gafwyd y llynedd parthed y sefyllfa parcio, soniodd y BMC y byddent yn gwneud llwybr drwy'r coed i gerddwyr. Clerc i holi'r BMC i weld os yw hyn wedi digwydd neu pa bryd mae'n debygol o ddigwydd.<br><br><u>Penmorfa</u><br><br>Adroddwyd fod yr hen lôn angen ei dorri gan ei fod yn hynod beryg i gerddwyr a beicwyr ac nid yn unig hyn yn crafu yn erbyn ochrau ceir. Clerc i fynd ar ôl y mater yma unwaith yn rhagor.<br><br><u>Bryncir</u><br><br>Dim i'w adrodd |
| 10. | Ymddiswyddiad Cynghorydd | Adroddwyd bod y Cynghorydd Cymuned Sarah Jones, Ward Pentrefelin yn ymddiswyddo. Diolchodd Sarah i'r Cyngor Cymuned am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch dros ei chyfnod fel cynghorydd.<br><br>Dymuna'r Cyngor Cymuned yn dda i Sarah a diolchwyd iddi am ei chyfraniad i'r Cyngor.<br><br>Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd bod sedd wag ac i drefnu bod hysbysiad yn cael ei roi fyny. |
| 11. | Gohebiaeth | a. Cyngor Gwynedd: Cau'r ffordd o gyffordd A497 ger Cwt y Defaid i'r De i Borth yr Hirfaen, Treflys – 26/06/2024. Dyddiad wedi pasio.<br>b. Cyngor Gwynedd: Ail Rybudd (Terfynol) (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd a Diddymu)(Ardal Dwyfor Rhif 8 2024)<br>c. Cyngor Gwynedd: Andrew Gregson parthed cyfyngiad cyflymder o Prenteg i gyfeiriad Parc Gwyliau Aberdunant). Gofynnwyd i mi ei gynnwys ar yr agenda ym mis Chwefror 2025. |

| | | |
|---|---|---|
| 12. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Cyfeillion Ysgol y Gorlan – llythyr o ddiolch<br>b. Llais – Cynllun Blynyddol 2024-2025<br>c. Llais – Cynllun Strategol 2024-2027<br>ch. Llywodraeth Cymru – Rhaglen wrando 20mya<br>d. Unllais Cymru – Canllawiau Cyfarfod Aml Leoliad<br>dd. Unllais Cymru – Gwerthusiad Cynllun Peilot Taclo Sefyllfa Ail Gartrefi Dwyfor<br>e. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – ymateb i gais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth<br>f. Unllais Cymru – Hyfforddiant Gorffennaf, Awst a Medi. Soniodd y Clerc fod EE (Garndolbenmaen) wedi rhoi ei henw i lawr ar ddau gwrs gydag Unllais. Roedd pawb yn gefnogol o hyn. |
| 13. | Cynllunio | **Rhestrau:** 03/06, 10/06,17/06,24/06,01/07<br><br>**Ceisiadau Cynllunio:**<br><br>**Rhif Cais:** C24/0468/36/DT<br>**Lleoliad:** Ta'n y Rhos, Garndolbenmaen, LL51 9TJ<br>**Disgrifiad:** Ystafell haul arfaethedig. Dim gwrthwynebiad.<br><br>**Rhif Cais:** C24/0499/36/DT<br>**Lleoliad:** 8 Rhesdai Bryncir, Penmorfa, LL49 9RY<br>**Disgrifiad:** Gosod pwmp gwres hunan-sefyll Riello 6KW. Dim gwrthwynebiad.<br><br>**Rhif Cais:** NP2/16/97K<br>**Lleoliad:** Tŷ Canol, Garndolbenmaen, LL51 9RQ<br>**Disgrifiad:** To arfaethedig dros iard rhwng dwy sied amaethyddol bresennol. Dim gwrthwynebiad. |
| 14. | Materion Ariannol | <u>Ceisiadau am arian:</u> Neb<br><br><u>Monitro'r gyllideb</u>: Dim gorwariant<br><br><u>Biliau i'w talu</u><br><br><u>Gorffennaf</u><br><br>Cyflog Clerc = £311.58<br>Ffôn = £ 15.00<br>Cyfrifiadur = £20.00<br>HMRC = £77.80<br>Veolia Mehefin = £41.14<br>Veolia Gorffennaf = £38.53 |

| | | |
|---|---|---|
| | | HSBC = £8.00<br>Unllais Cymru = £265.00<br>Madog Gardencare = £220.00<br>Cymru 1 Cyf =£422.40<br>Hughes-Jones, Dyson & Co = £360.00<br><br><u>Awst</u><br><br>Cyflog Clerc = £311.58<br>Ffôn = £ 15.00<br>Cyfrifiadur = £20.00<br>HMRC = £77.80<br>Madog Gardencare = £220.00<br><br><u>Derbyniadau:</u><br><br>Llog =£175.01<br><br><u>Balansau Cyfrifon Banc:</u><br><br>- Cadw: £38,479.38<br>- Cyfredol: £2,637.41 |
| 15. | Gohebiaeth i'r Wasg / Wefan | - Ymddiswyddiad Cynghorydd<br>- Pont y Traeth<br>- Llwybrau yn cael eu torri<br>- Arwyddion Pont Isel Pentrefelin<br>- Cais Rhyddid Gwybodaeth Hwb Eifionydd |